CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Cyngor**
Dyddiad y cyfarfod:	**13 Gorffennaf 2023**
Teitl:	**Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2022-23**
Pwrpas yr adroddiad:	**Cyflwyno adroddiad blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**
Er:	**Gwybodaeth**
Portffolio'r Cabinet ac Aelod y Cabinet:	**Y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod y Cabinet dros Bartneriaethau, Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd**

Cefndir:

Mae Canllawiau Ymarferol CIPFA ar gyfer Awdurdodau Lleol a'r Heddlu (argraffiad 2022) yn dweud ei bod yn bwysig bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael ei ddwyn i gyfrif o ran i ba raddau y mae wedi cyflawni ei ddiben. Bydd hyn yn cynnwys a yw'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi:

- cyflawni'r cylch gorchwyl y cytunwyd arno
- mabwysiadu arferion a argymhellir
- asesu ei effeithiolrwydd ei hun
- Asesu anghenion hyfforddi
- Asesu effaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar lywodraethu, risg a rheolaeth o fewn yr Awdurdod

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 14eg Medi 2017, cytunwyd y byddai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol yn rhoi asesiad o effeithiolrwydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac i roi sicrwydd yr aethpwyd i'r afael â materion a'u bod wedi'u symud yn eu blaenau.

Defnyddir Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i:
a) Tynnu sylw at y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod y flwyddyn;
b) Dangos sut mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi gwneud gwahaniaeth;
c) Amlinellu'r flaenraglen waith ar gyfer y flwyddyn i ddod; a
d) Rhoi hunanasesiad a sicrwydd.

Sefyllfa Bresennol:

Cyflwynwyd adroddiad ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2022-23 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar Fehefin yr 21ain 2023 (dolen i'r adroddiad).

Cytunodd y Pwyllgor i gymeradwyo Adroddiad Blynyddol drafft y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2022-23, yn amodol ar ychwanegu manylion presenoldeb y cyn Aelod Lleyg, Liam Hull, a chynnwys y geiriau ‘ddim yn berthnasol’ ar gyfer cyfarfodydd a gynhaliwyd y tu allan i gyfnod aelodaeth aelodau’r Pwyllgor. Mae'r newidiadau hyn wedi'u gwneud i'r adroddiad ers hynny.

Mae Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2022-23 wedi’i atodi yn **Atodiad 1**.

Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol:	**A oes Asesiad Effaith Integredig wedi’i gwblhau? Os nad oes, dywedwch pam** Nac oes ***Crynodeb:*** Nid yw'r adroddiad hwn yn cynrychioli newid mewn polisi na strategaeth **Hirdymor:** **Cydweithio:** **Cynnwys:** **Atal:** **Integreiddio:**
Argymhelliad:	Bod y Cyngor yn nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2022-23
Rhesymau dros y penderfyniad:	Cael sicrwydd bod trefniadau effeithiol ar waith i reoli materion ariannol, rheolaeth risgiau, rheolaeth fewnol a threfniadau llywodraethu corfforaethol yr awdurdod a bod trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod yn ddigonol.
Trosolwg a Chraffu:	Cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 21/6/2023:
Fframwaith Polisi:	Ddim yn berthnasol
Amcanion Llesiant Corfforaethol:	Ddim yn berthnasol
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Dim
Goblygiadau Cyfreithiol:	Dim
Goblygiadau staffio:	Dim
Goblygiadau eiddo / asedau:	Dim
Risg(iau):	Dim
Pwerau Statudol:	Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

Papurau Cefndir:	Adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 21/6/2023: https://cyngor.ceredigion.gov.uk/documents/s5169/Eitem%209%20Adroddiad%20Blynyddol%20combined.pdf?LLL=1
Atodiadau:	**Atodiad 1 -** Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2022-23
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyfreithiol a Llywodraethu (a'r Swyddog Monitro)
Swyddog Adrodd:	Harry Dimmack
Dyddiad:	22/06/2023